

Canllaw Hygyrchedd

Caban, Traeth Pentywyn



Gwasanaeth Hamdden



Croeso

Rydym wedi gwneud ein gorau glas i sicrhau bod mynediad addas i gadeiriau olwyn a phobl anabl yn Caban drwy ddarparu llwybrau wedi'u tirlunio a rampiau. Mae'r datganiad hygyrchedd yn nodi'r addasiadau ffisegol a'r mesurau rheoli a ddarperir ym mhob rhan o Caban i hwyluso mynediad i bawb.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y canllaw hwn mor gynhwysfawr a chywir â phosibl ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Fodd bynnag, yn unol â'n hymrwymiad i wella'n barhaus o ran darparu mynediad i bawb, gallai lefel y ddarpariaeth newid. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd mesurau eraill ar gael ar adegau oherwydd torri i lawr, gwaith cynnal a chadw neu resymau eraill annisgwyl.

Os bydd angen eglurhad arnoch ynghylch unrhyw agwedd ar y ddogfen hon neu os bydd unrhyw addasiad yn arbennig o bwysig er mwyn i chi fwynhau eich ymweliad, cysylltwch â Caban drwy ffonio 01267 244622 i gadarnhau'r manylion.

Darllenwch y Datganiad Hygyrchedd i gael rhagor o wybodaeth am ein polisi.

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch hygyrchedd: caban@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 224622

www.cabanpentywyn.cymru

Cipolwg

 Mynediad Gwastad

Clyw

- Nid oes gennym ddolen sain mewn manau cyhoeddus yn ein cyfleusterau ar hyn o bryd.
- Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.

Golwg

- Mae gan ddrysau gwydr a ffenestri uchder llawn farciau cyferbyniol.
- Mae'r waliau a'r drysau yn wahanol iawn o ran lliw.
- Mae'r fwydlen ar gael mewn print bras.

Cymorth ychwanegol

Offer hygyrchedd

- Rydym yn croesawu cŵn cymorth ac yn gallu darparu powlenni dŵr ar eu cyfer. Gofynnwch i aelod o staff am gymorth.

Gweithdrefnau gadael mewn argyfwng

- Mae gennym weithdrefnau gadael mewn argyfwng ar gyfer ymwelwyr anabl.
- Os bydd angen gwacáu'r ardal, bydd yr holl gwsmeriaid y tu mewn yn cael eu harwain i le diogel gan aelod o'r tîm neu gan aelod o'r frigâd dân.

Cymorth gofal cwsmeriaid

- Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.
- Mae rhai aelodau o staff wedi cael hyfforddiant BSL.
- Rydym yn darparu gwybodaeth mewn print bras.
- Darperir yr holl wybodaeth yn ddwyieithog – yn Gymraeg ac yn Saesneg

Sut i gyrraedd

Caban Pentywyn
Marsh Road
Traeth Pentywyn
Sir Gaerfyrddin
SA33 4NY

Mae gan Caban gysylltiadau ffordd ardderchog. Wedi'i leoli oddi ar gyffordd yr A40 o Gaerfyrddin, taith 30 munud mewn car trwy dref Talacharn. O'r A40 i'r A477 i'chcyrchfan ym Mhentywyn.

O Sir Benfro: Dilynwch Greenhill Avenue a'r A4218 i Heol Arberth/A478

Dilynwch yr A478 a'r A477 i Sir Gaerfyrddin. Dilynwch y B4314 i'ch cyrchfan ym Mhentywyn

Parcio

- Mae system rwystr newydd ar waith yn Caban sy'n cynnwys system Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR).
- Mae'r holl fannau talu wedi'u nodi'n glir a byddant yn derbyn taliadau â cherdyn, taliadau digyffwrdd ac arian parod
- Mae mynediad gwastad i bob man talu a sgrin arddangos isel ar gyfer talu ag arian parod a chardiau
- Darperir manau parcio i bobl anabl ger Caban. Cysylltwch ymlaen llaw i drefnu hyn
- Mae'r brif fynedfa yn wastad. • Mae'r drws yn 880mm o led. • Mae'r prif ddrws yn awtomatig.

Toiledau cyhoeddus

- Mae 2 doiled cyhoeddus ar gyfer ymwelwyr anabl wedi'u lleoli yn Caban
- Mae'r ddau doiled anabl ar lawr gwaelod yr adeilad, gyda mynediad gwastad
- O'r brif fynedfa i'r toiled cyhoeddus,
- Mae drws y toiled yn 850mm o led.
- Mae 780mm o flaen y toiled. Mae sedd y toiled yn 480mm o uchder.
- Mae canllawiau cydio llorweddol ar ochr chwith y toiled. Mae cyfleusterau newid cewynnau yn y toiled hwn.
- Mae 2 doiled wedi'u lleoli y tu allan i Caban, 1 i fenywod, 1 i ddynion

Liff

- Ceir mynediad i'r lifft drwy'r brif fynedfa ac ar lawr gwaelod Caban drwy ddrws diogelwch y llety
- Mae'r lifft yn datgan rhif y llawr ar bob llawr.
- Mae'r rhifau a'r llythrennau ar fotymau'r lifft wedi eu codi.
- Mae'r lifft yn dangos rhif y llawr, ar bob llawr.
- Mae'r lifft yn rhoi mynediad i lawr gwaelod a llawr cyntaf Caban. Mae'r lifft yn gwasanaethu'r llawr cyntaf, y dderbynfa a'r bwyty.
- Mae drws y lifft yn 880mm o led

Cyfleuster hygyrch

Wedi'i leoli ar y llawr gwaelod yn Caban mae ein cyfleuster cwbl hygyrch.



Nodweddion y cyfleuster.

- Mainc - gellir addasu ei uchder, maint oedolyn, ar ei thraed ei hun
- Toiled Penrhyn
- Llawr di-lithr
- Arwynebedd Llawr (metr sgwâr) - 13
- Larwm argyfwng
- Sgrin Preifatrwydd
- Cawod Hygyrch

Mynediad i'r Traeth

- Cadair olwyn ar gyfer y traeth – ar gael o Caban i'w llogi am ddim. Mae angen talu blaendal ymlaen llaw.



1 Lleoddd i fwyta ac yfed

Bwyty a Bar Caban



Mae'r mynediad trwy 2 ddrws awtomatig. Mae'r drws allanol yn 1090mm o led ac mae drws y fynedfa fewnol yn 900mm o led

Mae Caban wedi'i leoli ar y llawr gwaelod sy'n gweini brecwast, cinio a swper blasus.

Mae gan Caban far trwyddedig hefyd. Gallwch archebu bwrdd drwy ffonio 01267 224622

- Mae mynediad i Caban yn wastad o ardal sydd wedi'i tharmacio. Mae mynediad gwastad yn parhau i'r teras blaen wedi'i darmacio sy'n arwain at y drysau mynediad o flaen yr adeilad.
- Mae mynediad gwastad gan y drysau mynediad drwy ddrysau awtomatig.
- Mae Caban yn fwyty sy'n darparu gwasanaeth gweini wrth y bwrdd, ac mae'n rhaid archebu wrth y bar ym mhen arall yr adeilad.
- Mae rhan o'r bar yn is i roi mynediad i gadeiriau olwyn.
- Mae staff cyfeillgar a chymwynasgar yn hapus i gymryd archebion wrth y bwrdd pan fydd hynny'n bosibl a lle mae angen cymorth.
- Mae'r goleuadau'n llachar gyda sbotoleuadau LED. Weithiau gall y goleuadau fod yn llai llachar gyda'r hwyr.
- Mae sgriniau gwybodaeth yn llachar ac nid ydynt yn swllyd.
- Mae'r holl arwyddion o fewn y bwyty ac o'i amgylch ar lefel isel
- Mae bwydlen print bras ar gael ar gais.
- Mae'r byrddau a'r platiau yn wahanol iawn o ran lliw. Mae offer bwrdd addasol ar gael ar gais.

Mae seddi awyr agored hygyrch ar gael

- Rydym yn darparu ar gyfer deietau heb siwgr (diabetig), llysiuol, fegan a heb glwten (seliag).
- Drwy roi rhybudd ymlaen llaw, gellir darparu ar gyfer yr holl ofynion o ran deiet. Rydym hefyd yn darparu llaeth soia ar gyfer coffi, te a siocled poeth.
- Mae croeso i gŵn cymorth. Rydym yn hapus i ddarparu dŵr yfed ffres os bydd angen.

Mae croeso i gŵn yn yr ardal sy'n croesawu cŵn.



Ystafelloedd



Mae Caban yn cynnwys 14 ystafell wely, gyda chyfanswm o 43 o welyau

Dyma drefniant yr ystafelloedd:

- Gwely brenin
- Gwely brenin gyda gwely sofffa
- Gwely brenin gyda gwely sengl
- Gwely brenin gyda gwely bync
- Mae 10 ystafell â golygfa o'r môr ac mae 4 ystafell â golygfa o'r parc
- 2 ystafell gwbl hygyrch
- 3 ystafell sy'n croesawu cŵn

3 ystafell ar y llawr gwaelod, 2 ohonynt yn gwbl hygyrch gydag ystafelloedd gwlyb.

Mewn achos o dân, mae'r adeilad hwn yn adeilad hunan-wacáu.

Mae 11 ystafell ar y llawr cyntaf sy'n cynnwys gwelyau brenin a gwelyau sengl neu welyau bync

Mae mynediad i'r llety trwy bafin tarmac a thrwy fwyty Caban

Mae drysau diogelwch i gael mynediad i'r ardal llety

Mae lifft ar gael ar gyfer mynediad i'r llawr cyntaf

Maint y drws: 850mm

Maint y lifft: 1010mm x 1480mm

Maint drws pob ystafell wely yw 840mm

Mae ardal y dderbynfa yn is ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn

Ystafell wely hygyrch

Mae gan bob ystafell wely hygyrch gord tynnu brys wrth ochr y gwely ac yn yr ystafell ymolchi ar ochr yr ardal toiled ac o fewn ardal yr ystafell wlyb gawod



Yr amser cyrraedd yw ar ôl 3pm. Yr amser gadael yw 10am. Mae cownter is yn y dderbynfa ar gyfer mynediad i'r dwyrain ar gyfer cadeiriau olwyn

Cyn cyrraedd

Rydym yn hapus i gyfathrebu dros y ffôn, drwy e-bost a gohebiaeth drwy'r post.

Mae copi o'r datganiad hygyrchedd hwn ar gael mewn print bras a thrwy'r post, neu e-bost ar gais.

Mae ein staff bob amser yn hapus i drafod ein cyfleusterau a'ch pryderon hyd yn oed cyn gwneud archeb. Mae croeso i chi holi.

Lleoedd parcio ar y safle


Mae parcio ar gael yn rhad ac am ddim i bawb sy'n aros yn y llety

Mae staff yn hapus i gynghori ar leoliad y maes parcio

Derbynnir cŵn tywys, cŵn clyw a chŵn cymorth ym mhob ardal yn rhad ac am ddim.

Mae gan Caban staff ar gael 24 awr y dydd os oes angen i chi gysylltu ag aelod o staff mewn argyfwng

Gwefru Ceir Trydan

 Mae 2 bwynt gwefru ceir trydan yn y prif faes parcio

Caban

Traeth Pentwyn
Pendine Sands

Marsh Road

Traeth Pentwyn

Sir Gaerfyrddin

SA33 4NY



01267 224 622



caban@sirgar.gov.uk



www.cabanpentywyn.cymru